menter iaith
Castell-nedd Port Talbot



Adroddiad Blynyddol
2019-20

Adroddiad Blynyddol 2019-20

RHAGAIR

Cafwyd flwyddyn lwyddiannus arall wrth i'r Fenter gweithio ar draws ardal eang ac amrywiol. Mae nifer o berthnasau a phartneriaethau wedi parhau i fynd o nerth i nerth. Mae nifer o brosiectau a gweithgareddau sefydlog wedi parhau i ffynnu, ond hefyd rydym wedi gweld sawl peth newydd yn datblygu. Mae ein perthynas gyda Swyddogion Cymraeg i Blant a Mentrau Iaith lleol yn parhau'n gryf, gyda nifer o weithgareddau a digwyddiadau ar y cyd, gan gynnwys digwyddiadau PlanTawe ar gyfer yr haf a'r Nadolig. Yn ogystal, mae ein perthynas gyda'r Cyngor Sir lleol yn parhau i fod yn hanfodol i'n gwaith, wrth i ni gydweithio i sicrhau bod y Cynllun Hybu ar waith.

Yn ystod yr haf, buodd gig Tanio'r Ddraig llwyddiannus iawn eto, gyda pherfformiadau byw gan gerddorion lleol a cherddorion o bell. Daeth tua 600 o blant i ddawnsio a joio cerddoriaeth cyfoes Cymraeg.

Wnaeth Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot gyrraedd y rhestr fer ar gategori Digwyddiad yng ngwobrau'r Mentrau Iaith a wnaeth digwydd am y tro cyntaf erioed ym mis Ionawr 2020. Pwrpas y gwobrau oedd i ddathlu gwaith arbennig y rhwydwaith wrth hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau yng Nghymru. Roedd y cystadleuaeth yn un arbennig o dda, a roedd y Fenter yn hapus iawn i gael ei ystyried ar y rhestr fer gyda digwyddiadau megis Tafwyl a Parti Ponty gyda'r digwyddiadau Sesh Swn. Nid oedd y Fenter yn llwyddiannus wrth ennill y gwobr, ond pwy a wyr beth bydd yn digwydd yn y gwobrau tro nesaf!

Yn ystod Chwefror, welodd y Fenter un o'r gigs mwyaf llwyddiannus erioed wrth i Bryn Fon ymweld ag Aberafan am y tro cyntaf. Daeth dros 150 o bobl i'w weld am noson llawn hwyl a ddawnsio. Gobeithio gweld gymaint yn dod i'r gig mawr nesaf.

Mae'r Fenter yn parhau i weithredu cynllun Aman Tawe ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'r cynllun gwasanaethau ieuenctid sydd yn cael ei weithredu ar y cyd rhwng Ysgol Gyfun Ystalyfera a'r Fenter yn parhau. Mae Swyddog Cymraeg Byd Busnes hefyd wedi bod yn brysur iawn yn yr ardal dros y blwyddyn diwethaf, wrth greu cysylltiadau newydd a helpu busnesau lleol i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ein prif nod eleni oedd canolbwyntio ar ein meysydd strategol gan hefyd edrych i sefydlu mwy o bartneriaethau er mwyn datblygu, hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ariannwyd y gwaith craidd yma gan Lywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd y flwyddyn yma, wnaeth ein Swyddog Cymunedol Hari ein gadael ar ol cyfnod o bron i 8 mlynedd gyda'r Fenter. Mae Hari wedi bod yn rhan hanfodol o'r tim yn ystod y cyfnod yma, ac wedi bod yn gyfrifol am nifer o brosiectau llwyddiannus iawn megis y Sesh Swn a mwy. Mae'r Fenter yn dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

STAFF

Bethan Crosby – Prif Swyddog
Siân Elen Jones – Swyddog Datblygu
Hari Powell – Swyddog Cymuned
Siân Jones – Swyddog Ieuenctid
Llinos Haf – Swyddog y Gymraeg Byd Busnes

PWYLLGOR RHEOLI AC ARDAL

Mae'r Fenter yn llwyddo diolch i'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Rheoli, Pwyllgorau ardal a thrigolion y Fwrdeistref Sirol. Yn ystod y cyfnod roedd gan y Fenter 11 o Gyfarwyddwyr a bu gwaith penodol yn digwydd er mwyn datblygu'r staff a'r Cyfarwyddwyr wrth i ni baratoi ar gyfer asesiad PQASSO.

Prosiectau

Teuluoedd

Yn ystod y cyfnod cynhaliwyd dros 90 o weithgareddau ar gyfer y teulu a dosbarthwyd dros 200 o becynnau ymwybyddiaeth iaith.

Daeth dros bron i 2,000 o rieni i'r gweithgareddau. Mae'r gweithgareddau yn amrywio o sesiynau celf a chrefft, canu a dawnsio ac yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwyno gwybodaeth am apiau a'r cyfryngau Cymraeg. Trwy flaenoriaethu'r maes yma rydym wedi sicrhau bod mwy o rieni a phlant ifanc yn derbyn gwybodaeth am fanteision y Gymraeg o safbwynt addysg, gyrfa a diwylliant. Rydym yn defnyddio'r sesiynau i deuluoedd ar gyfer cyflwyno pobl i gymeriadau sydd yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg ee Magi Ann, Sam Tan, Peppa Pinc. Rydym hefyd yn cyflwyno gwyliau Cymraeg i deuluoedd megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi ayb.

Rydym yn sicrhau bod Sïon Corn ac unrhyw gymeriadau yr ydym yn ei ddefnyddio yn medru'r Gymraeg. Un o brif lwyddiannau'r cyfnod ydy targedu busnesau sydd yn ymwneud a gofal plant er mwyn ceisio ymyrryd ar ddefnydd iaith a cheisio defnyddio arbenigedd y Swyddog Busnes i ddylanwadu o fewn y maes yma.

Dyma rhai o'r uchafbwyntiau!

1. Doti a Fi ar daith - Siani Sionc
2. Taith Magi Ann
3. Halibalw Dydd Miwsig
4. Gŵyl Plantawe Haf a Nadolig







Plant a Phobl Ifanc

Ystyrir plant a phobl ifanc yn ddwy garfan allweddol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r Ysgol yn anodd ond yn hanfodol, ac mae'r Fenter yn ceisio creu cyfleoedd cyffroes a chyfoes i blant a phobl ifanc defnyddio'r iaith.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi llwyddo i ddatblygu 237 o weithgareddau ar gyfer dros 5000 o blant a phobl ifanc, gyda gwaith Siân Jones o fewn Ysgol Gymraeg Ystalyfera yn werthfawr iawn i'r cyswllt yma gyda'r bobl ifanc. Rydym wedi gweld *'Stafell Stwnsh,* sy'n rhywle ble gall disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera mynd er mwyn derbyn cymorth, ymarfer a dangos balchder yn eu hiaith a'u diwylliant, yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o sesiynau iwcalili ar gyfer plant a phobl ifanc ac fe ddaeth dros 600 o blant i weld Ed Holden, Bronwen Lewis, a Candelas yn perfformio yn ystod gig Tanio'r Ddraig! Gwnaeth plant yr ysgolion dysgu geiriau can Mei Gwynedd am yr ardal, er mwyn canu ar y diwrnod.

Un o brif lwyddiannau'r cyfnod oedd gweld nifer o aelodau'r chweched dosbarth dod i wirfoddoli i helpu plant iau i ddarllen yng Nghlwb Darllen Ty'r Gwrhyd. Mae'r chweched wedi chwarae rol hanfodol yn y clwb wrth darllen a diddanu'r plant.

Dyma rhai o'r uchafbwyntiau:

1. Stafell Swnsh
2. Tanio'r Ddraig
3. Clwb Darllen







Y Gymuned

Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed i fod yn iaith hyfyw, mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu ac yn datblygu mwy o weithgareddau cymdeithasol i rieni ac rydym wedi trefnu dros 75 o weithgareddau ar gyfer dros 1000 o bobl. Rydym wedi ceisio rhoi sylw penodol i ardaloedd sensitif o ran yr iaith a hefyd edrych ar ardaloedd trefol lle mae trwch o bobl sydd angen gwasanaethau. Mae'r Fenter wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau Mentrau Iaith Cymru ar gyfer un o'u digwyddiadau cymunedol, sef y Sesh Swn. Mae'r digwyddiadau yma yn cyfle arbennig i gerddorion lleol ymuno i chwarae offeryn a chanu. Dyma rhai o'r uchafbwyntiau!

1. Gig Bryn Fon
2. Sesh Sŵn a Sesh Fach
3. Cystadleuaeth Ffenest Siop







Dathlu Gwyliau

Fel rhan o weledigaeth y Fenter o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith fyw, rydym wedi blaenoriaethu codi ymwybyddiaeth o ddyddiadau penodol er mwyn cyd weithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dyddiadau megis, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Ddewi.

Cynhaliwyd cystadleuaeth dylunio logo ar gyfer Diwrnod Shwmae Su'mae gydag ysgolion ardal PartnerIAITH Aman Tawe yn cymryd rhan.

Trefnwyd nifer o weithgareddau ar gyfer Dydd Miwsig Cymru gan gynnwys gig Bryn Fon.

Buodd cystadleuath arbennig ar gyfer Dydd Gwyl Dewi yn weld ffenestru siopau o Sgiwen i Ystradgynlais yn cael naws Cymreig.

Wnaeth nifer fawr o blant ein helpu i greu addurniadau ar gyfer coeden Nadolig arbennig i ddathlu cymreictod fel rhan o Gwyl Coed Nadolig Parc Margam.

Yn ogystal cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd marchnata gan ddefnyddio tudalennau cyfryngau cymdeithasol y Fenter, a wnaeth cyrraedd 6000 o bobl.



Mae'r Fenter Iaith yn derbyn grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu nifer o weithgareddau craidd. Heb ymroddiad y Llywodraeth ni fyddai'n bosib i'r Fenter weithredu. Mae'r costau yma yn mynd tuag at gostau staff, costau craidd a chostau cynnal y swyddfa. Hoffwn ddiolch hefyd i Ysgol Gyfun Ystalyfera ac i'r Cyngor am weithio gyda ni yn ystod 2018/19, i Fentrau Iaith Cymru am bob cefnogaeth, ac i'r gwirfoddolwyr sydd yn cyfrannu i nifer fawr o elfennau o'n gwaith.

Os hoffwch wybod mwy am sut mae'r Fenter yn gweithredu, cysylltwch.

menter iaith
Castell-nedd Port Talbot

Tŷ'r Gwrhyd, Stryd Holly, Pontardawe, SA8 4ET
01639 763819 **www.micnpt.cymru**